

Arolygiad Anableddau Dysgu (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Preswyl
Arbenigol Laurels and
Briary**

Dyddiad arolygu: 14 Mehefin 2016

Dyddiad cyhoeddi: 15 Medi 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	10
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	18
6.	Methodoleg	19
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o wasanaeth preswyl arbenigol Laurels and Briary (anableddau dysgu) ar 14 Mehefin 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anableddau dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Laurels and Briary yn darparu gofal, triniaeth a chymorth 24 awr i bobl ag anghenion cymhleth ac yn rhan o wasanaethau anableddau dysgu sy'n cael eu gweithredu a'u rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe. Datblygwyd y cyfleuster preswyl, sef dau fyngalo, yn dilyn caead ysbyty Trelái ac mae'n un o'r naw gwasanaeth tebyg sydd ar gael yng Nghaerdydd.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal, triniaeth a chymorth ar gyfer uchafswm o wyth o bobl. Mae'r gwasanaeth hefyd yn bwriadu darparu gofal seibiant i un person ar unrhyw adeg benodol. Ar adeg ein harolygiad, roedd pum benyw a dau wryw yn byw yn y cartref. Nid oedd neb yn derbyn gwasanaethau seibiant.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr a dirprwy reolwr (sy'n nyrsys cofrestredig), nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Maent yn cael eu cefnogi o bryd i'w gilydd wrth ofalu am gleifion gan weithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol, yn unol ag anghenion newidiol adnabyddedig cleifion.

Mae'r holl gleifion wedi'u cofrestru â meddygon teulu lleol.

3. Crynodeb

Roedd hi'n amlwg bod staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn gosod pwyslais sylweddol ar sicrhau bod profiad y cleifion (a'u teuluoedd) o ofal a chymorth yn gadarnhaol.

Yn gyffredinol, canfuom fod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn flaenoriaeth. Roedd hyn oherwydd ein bod yn gallu cadarnhau bod yna drefniadau addas ar waith i ddarparu gwasanaeth diogel o safon uchel. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod problemau ehangach megis lefelau staffio, cynnal yr amgylchedd gofal ac ymgysylltiad staff (gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd) yn aml y tu hwnt i'w rheolaeth.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Canfuom fod staff yn mabwysiadu'r defnydd o ganllawiau arfer gorau (bwrdd iechyd a phroffesiynol) mewn perthynas â chynllunio gofal a thriniaeth cleifion
- Roedd y tîm o staff i'w gweld yn drugarog, yn gryf eu cymhelliant ac yn barchus tuag at gleifion, ac at ei gilydd
- Roedd cleifion yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau cymdeithasol a hamdden yn unol â'u dymuniadau a'u galluoedd

Mae angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynghorir y bwrdd iechyd am yr angen i roi manylion i AGIC am sut y byddai'n sicrhau bod digon o staff ar gael bob amser i weithio yn y gwasanaeth ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion cleifion
- Gofynnir i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a safonau'r Adeilad Di-fwg
- Cynghorir y bwrdd iechyd o'r angen i hysbysu AGIC am y camau cychwynnol a pharhaus i'w gymryd i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal yn yr amgylchedd mwyaf priodol ac yn unol â'u hanghenion, eu dymuniadau a'u hoffterau.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo gweithle iachus a diogel yn weithredol ac i hyrwyddo iechyd a lles cleifion a staff

Gweler Atodiad A o'r adroddiad hwn am wybodaeth am agweddau eraill ar ddarpariaeth gwasanaeth yn Laurels and Briary sydd wedi eu nodi i'w gwella.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Yn gyffredinol, roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff yn rhoi cryn bwyslais ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gleifion sy'n byw yng ngartref Laurels and Briary.

Gwnaeth y tîm arolygu geisio casglu safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir yn y gwasanaeth drwy drafodaethau wyneb yn wyneb, lle bo'n bosibl.

Fodd bynnag, o ganlyniad i anawsterau amrywiol a chymhleth cleifion gyda chyfathrebu ar lafar, roedd ein barn o'u profiad o ddydd i ddydd yn seiliedig ar yr hyn a ysgrifennwyd yn y cynlluniau gofal a thriniaeth, arsylwadau a wnaethom yn ystod ein hamser yn y gwasanaeth a thrafodaethau a gynhaliwyd ag aelodau o'r staff ynghylch y ffordd y maent yn cefnogi unigolion.

Cadw'n iach

Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofawyr am unigolion nad ydynt yn gallu gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Pan ofynnwyd a oedd pob claf a oedd yn byw yn y gwasanaeth preswyl wedi derbyn eu gwiriad iechyd blynyddol gan eu meddyg teulu, dywedodd y staff eu bod wedi eu gwneud. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth yn ffeiliau'r unigolion i'r perwyl hwnnw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGIC bod yr holl gleifion wedi derbyn eu gwiriad iechyd blynyddol gan feddyg teulu.

Yn ystod taith o gwmpas y safle, daeth yn amlwg bod yr ystafell wydr yn cael ei defnyddio i alluogi cleifion i ysmegu. O ganlyniad, roedd arogl mwg yn bresennol yn yr ystafell wydr gyffiniol ac ym man bwyta un o'r byngalos. Roedd hyn yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth Adeiladau Di-fwg (Cymru) 2007 yn ogystal â'r Safonau Iechyd a Gofal ac roedd potensial i hyn i gael effaith negyddol ar iechyd a lles cleifion a staff nad ydynt yn ysmegu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am gamau a gymerwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a safonau'r Adeiladau Di-fwg.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1 – Gofal Gydag Urddas)

Canfuwyd gennym fod pobl yn derbyn gofal gan dîm o staff tosturiol, cryf eu cymhelliant a oedd yn barchus tuag at gleifion ac at ei gilydd.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod diymhongarwch a phreifatrwydd cleifion yn cael eu hamddiffyn wrth iddynt gael eu cynorthwyo gydag agweddau ar eu gofal personol. Mae hyn oherwydd y gwelsom fod staff wedi gosod sgrin symudol ar bwyntiau amrywiol yn y prif goridor pan oedd cleifion yn cael eu tywys o'u hystafell eu hunain i'r toiled neu'r man ymolchi. Gwelsom staff yn cnocio ar ddrysau cleifion cyn mynd i mewn i'w hystafelloedd gwely.

Roedd ystafelloedd cleifion wedi eu haddurno'n dda ac yn cynnwys nifer o eitemau a oedd wedi cael eu dewis ganddyn nhw a/neu eu teuluoedd.

Gwnaethom arsylwi ar lawer o adegau lle gwnaeth staff eistedd wrth ymyl cleifion i'w helpu i fwyta ac yfed neu i wrando arnynt a chynnal sgysiau am eu diwrnod.

Roedd trafodaethau â staff yn dangos yr ymdrechion a wneir i sicrhau bod y ddarpariaeth gofal ymataliaeth yn briodol, yn brydlon ac yn gynnil. Gwelsom hefyd nifer o gynlluniau gofal cleifion lle'r oedd yn eglur bod cleifion yn cael eu hannog i wneud cymaint o'u gofal personol â phosibl.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol, gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn derbyn gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir. (Safon 5.1)

Gwnaethom nodi bod staff yn bresennol ymhob man lle mae cleifion yn bresennol. Gwelsom hefyd fod staff yn ymateb yn brydlon iawn i unigolion pan fyddant yn cael eu galw, neu'n ymddangos yn bryderus.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol (lle'r oedd anghenion cleifion yn cael eu hasesu a'u hadolygu) wedi digwydd am gryn dipyn o amser. Cawsom ein sicrhau, fodd bynnag, bod trafodaethau mor bwysig yn mynd i aildechrau yn y dyfodol agos iawn (8 Gorffennaf 2016).

Gofal unigol

Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 – Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)

Gwnaethom edrych ar ddau gofnod claf (o'r saith a oedd ar gael) mewn manylder a chanfuom eu bod yn cynnwys cynlluniau gofal cynhwysfawr a hawdd eu dilyn. Yn ogystal, rhoddodd y cyfryw gofnodion enghreifftiau o gyd-drefniant gofal da rhwng staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth a grŵp ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd hyn yn golygu bod pobl berthnasol yn ymgymryd â chynllunio gofal cyfredol a dyfodol cleifion. Siaradom â staff hefyd a gwelwyd eu bod yn wybodus iawn ynghylch anghenion unigolion sydd dan eu gofal.

Yn gyffredinol, roedd gan gleifion fynediad at yr offer cywir i helpu i ddiwallu eu hanghenion dynodedig. Fodd bynnag, canfuom fod oedi arwyddocaol wedi bod wrth geisio cael gafaer ar gadair newydd/arbenigol ar gyfer un unigolyn; roedd y gadair wedi cael atgyweiriad dros dro ac yn anodd i staff ei symud yn ddiogel. Canfuom hefyd fod y claf yn anghyfforddus wrth ddefnyddio'r gadair gyfredol, gan nad oedd yn gallu eistedd yn y safle cywir.

Datgelodd sgysiau â'r staff hefyd fod un o welyau'r cleifion a ddefnyddir ar hyn o bryd yn ddiffygiol (yn benodol, nid oedd y gwely yn dal ei le wrth gael ei godi a oedd yn creu anawsterau ar gyfer staff a'r claf dan sylw yn ystod gweithdrefnau codi a chario) er i geisiadau gael eu gwneud i'w drwsio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob claf yn cael cyfarpar priodol mewn ffordd amserol er mwyn diwallu ei anghenion cydnabyddedig.

Roedd ffeiliau cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn am eu dymuniadau a'u hoffterau allweddol yn ogystal â gwybodaeth bwysig am eu iechyd corfforol a meddyliol (mae'r cyfryw wybodaeth yn cael ei galw'n 'pasbort ysbyty' ac yn gallu cael ei chludo gyda chleifion wrth eu derbyn i'r ysbyty am ofal neu driniaeth aciwt i gynorthwyo staff i ddeall eu hanghenion).

Dylai pasbort pob claf yn ddelfrydol gael ei ddiweddarau'n flynyddol i sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol i'w hanghenion cyfredol, gan nad oedd rhai wedi'u diweddarau ers ychydig dros ddeuddeg mis.

Roedd trafodaethau â'r rheolwr uned yn amlygu'r pwyslais a roddwyd ar annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn unol â'u dymuniadau a'u galluoedd. Er enghraifft, cynhaliwyd sesiynau 'cerddoriaeth gymunedol Cymru' ar brynhawniau Gwener; gweithgaredd y dywedwyd wrthym ei fod yn unigryw i'r gwasanaeth hwn ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan gleifion. Roedd cyn-gleifion yn gallu mynychu os oeddent yn dymuno gwneud.

Dywedwyd wrthym hefyd am y trefniadau a wnaed i gefnogi cleifion ar daith undydd yn y dyfodol agos ac amrediad o weithgareddau/digwyddiadau cymdeithasol eraill yr oedd cleifion yn gallu eu mwynhau. Yn ychwanegol, roedd gan gleifion fynediad at le dymunol, gwastad yn yr awyr agored pan oedd y tywydd yn caniatáu (er bod un o'r allanfeydd o'r byngalos yn anaddas ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd).

Datgelodd sgysiau a gawsom â staff ac uwch-reolwyr fod mwy nag un claf a oedd y byw yn y gwasanaeth angen llety amgen o ganlyniad i'w hanghenion. Fodd bynnag, ymhob achos, nid chafwyd cytundeb naill ai o ran y gyllideb Gofal Iechyd Parhaus y GIG nac o ran trefniadau byw addas (megis tai â chymorth neu gartref gofal). Roedd gan y materion hyn y potensial i gael effaith negyddol ar iechyd a lles y cleifion dan sylw. Mae'n hanfodol felly bod cytundeb rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol a gydnabuwyd, fel bod y gofal a ddarperir i gleifion yn fwy addas iddynt ac nad oes unrhyw oedi pellach.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau gweithredu cychwynnol a pharhaus i'w cymryd i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal yn yr amgylchedd mwyaf priodol ac yn unol â'u hanghenion, eu dymuniadau a'u hoffterau.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 – Hawliau Pobl)

Canfuom fod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu gyda'r amcan o sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu parchu. Mae hyn oherwydd bod cofnodion cleifion yn dangos yn glir bod awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli

Rhyddid¹ ar waith; bod y broses gywir wedi cael ei dilyn. Roedd system sefydledig er mwyn gofyn am adnewyddu mesurau diogelwch hefyd, yn unol ag anghenion unigolion. (Mae'r mater hwn yn derbyn rhagor o sylw o dan Safon Iechyd a Gofal 2.7).

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3 – Gwranddo a Dysgu o Adborth)

Cadarnhaodd trafodaethau â rheolwr yr uned fod y gwasanaeth yn dosbarthu holiaduron i gleifion a'u teuluoedd yn flynyddol fel ffordd o gasglu eu safbwyntiau lle bynnag y bo'n bosibl. Cwblhawyd yr arolwg diwethaf ym mis Tachwedd 2015 ac o ganlyniad derbyniwyd sawl sylw cadarnhaol.

Disgrifiodd staff hefyd sut y gwnaethant bob ymdrech i ddod i adnabod yr unigolion yn eu gofal (yn ogystal â'u teuluoedd), er mwyn gweithio gyda nhw i wella gwasanaethau'n barhaus ac ymdrin ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Dywedwyd wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol yn y deuddeg mis diwethaf.

¹ Nod Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid 2009 yw sicrhau nad yw pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal, neu sy'n byw â chymorth ond yn colli eu rhyddid mewn modd diogel, a dim ond pan fydd hynny er budd pennaf y person, ac nad oes modd arall o ofalu amdanynt.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Canfuom fod tîm y staff yn gwneud pob ymdrech i ddarparu cleifion â gofal diogel, amserol o ansawdd uchel. Canfuom hefyd fod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn flaenoriaeth i'r staff.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1 – Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)

Roedd Laurels a Briary wedi derbyn ymweliad o'r gwasanaeth tân ym mis Chwefror 2016, ac o ganlyniad, roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd weithredu ynghylch nifer o broblemau amgylcheddol. Fodd bynnag, dangoswyd y cynllun gweithredu cyflawn a baratowyd gan y bwrdd iechyd i ni a chanfuom fod nifer o broblemau eisoes wedi cael sylw. Fe'n hysbyswyd hefyd fod y gwaith adeiladu gofynnol a ddarpariaeth drysau tân ac allanfeydd tân ychwanegol ar fin dechrau.

Gwelsom fod y llawr a leolir wrth allanfa un o'r ystafelloedd gwydr angen trwsio a bod perygl o faglu a bod y llawr/palmant yn union tu ôl i ddrws yr ystafell wydr yn anwastad ac ar ongl a oedd yn atal pobl ag anawsterau symudedd rhag cael mynediad i'r ardd yn ddiogel.

Nid oedd gan staff fynediad at ardal i storio eu heiddo'n ddiogel nac i dreulio amser yn ymlacio yn ystod eu cyfnodau egwyl. Yn ogystal, nid oedd ystafell ymwelwyr ddynodedig lle'r oedd cleifion a'u teuluoedd yn gallu treulio amser gyda'i gilydd, neu le'r oedd teuluoedd yn gallu siarad â staff ynghylch materion cyfrinachol (ac roedd swyddfa'r rheolwr a'r swyddfa weinyddol ill dwy'n gyfyng ac yn anniben).

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo gweithle iachus a diogel yn ogystal ag iechyd a lles cleifion a staff.

Gwelsom fod gan staff fynediad at gyfarpar argyfwng i'w ddefnyddio pe bai claf yn llewygu. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiadau a roddwyd ar y pecyn yn ei gwneud hi'n eglur a oedd yr offer yn barod i'w ddefnyddio. Yn ogystal, fe'n hysbyswyd nad oedd nifer o'r staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ynglŷn ag adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd staff fodd bynnag wedi derbyn hyfforddiant

penodol mewn defnyddio offer sugno. Mae'r broblem o hyfforddi staff yn cael rhagor o sylw o fewn yr adran o'r adroddiad hwn a enwyd Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod gan staff fynediad at offer dadebru priodol i'w defnyddio yn ystod argyfwng gyda chlaf (llewygu).

Gwnaethom archwilio sampl o asesiadau risg cleifion a chanfuom fod pob un wedi'i ysgrifennu gyda phwyslais ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person.

Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5 – Maeth a Hydradu)

Gwelsom fod staff yn ddigynnwrf ac yn annog cleifion wrth eu cefnogi i fwyta ac yfed. Gwelsom hefyd fod gan gleifion (a oedd yn gallu bwyta ac yfed yn annibynnol) fynediad at fwydlen amrywiol bob dydd. Yn ogystal, gwelsom rai enghreifftiau o gynlluniau maetheg manwl cleifion.

Roedd trefniadau priodol ar waith i roi cymorth maethol artiffisial i gleifion hefyd yn unol â'u hanghenion.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6 – Rheoli Meddyginiaethau)

Gwnaethom hefyd edrych ar siartiau meddyginiaeth cleifion ac roeddem yn gallu cadarnhau eu bod wedi derbyn eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn mewn ffordd amserol. Gwelsom hefyd fod system wedi'i hen sefydlu ar waith i staff gofnodi'r defnydd o ffurfiau o feddyginiaeth 'yn ôl yr angen' ynghyd â'i hamlder a'i heffeithiolrwydd.

Cafodd lefelau poen cleifion eu hasesu, eu monitro a'u harfarnu drwy defnyddio dull asesu priodol, cydnabyddedig.

Rhoddwyd dalenni gwybodaeth manwl i staff am feddyginiaeth cleifion a ddefnyddir ar bresgripsiwn. Cadwyd y cyfryw ddalenni gwybodaeth gyda siartiau meddyginiaeth cleifion er mwyn cynorthwyo/atgoffa staff o ddefnydd y feddyginiaeth a'i sgil effeithiau posibl.

Dangosodd sgysiau â staff eu bod yn cwblhau archwiliad cyffuriau bob nos fel ffordd o sicrhau bod meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn cael ei rhoi a'i storio'n gywir.

Dynododd trafodaethau â rheolwr yr uned fod y gwasanaeth yn derbyn ymweliad cymorth/adolygu misol gan fferylllydd a gyflogir gan y bwrdd iechyd. Roedd meddyg yn ymweld â'r gwasanaeth yn ddyddiol er mwyn ystyried/adolygu meddyginiaeth cleifion yn ôl yr angen.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr ystafell feddyginiaethau ar agor pan gyrhaeddodd ni ac ar adegau eraill yn ystod ein hymweliad. Tynnwyd sylw'r rheolwr uned at hyn i atal mynediad gan bobl heb awdurdod.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod diogelwch a storio meddyginiaethau'n cael ei gynnal yn unol â'r polisi lleol.

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7 – Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed)

Roedd gan staff fynediad at ganllawiau cyfredol Cymru gyfan ynghylch amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Yn ogystal, fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw achosion o amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi codi o ganlyniad i ddarpariaeth y gwasanaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Roedd archwiliad o gofnodion gofal cleifion yn dangos bod gan y tîm staff ddealltwriaeth dda o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Fodd bynnag, er bod y tîm wedi cyflwyno tri chais Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i'w hystyried ym mis Mai 2016, cafodd y tîm eu hysbysu y byddai oedi arwyddocaol wrth gwblhau'r asesiad budd gorau gofynnol. Roedd y mater hwn heb ei ddatrys ar adeg ein harolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Gwelsom fod gan gleifion fynediad at eiriolaeth annibynnol ar adegau pan nad oedd aelodau teuluol/cynrychiolwyr ar gael i'w cefnogi ynghylch penderfyniadau am eu gofal.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)

Canfuom fod cleifion yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed gocheladwy drwy ofal a chymorth priodol yn unol â chanllawiau arfer gorau, a chofnodwyd manylion hyn yn eglur yng nghofnodion unigolion.

Wrth gyfathrebu â phobl, dylai gwasanaethau iechyd ddiwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2 – Cyfathrebu'n Effeithiol)

Canfuom fod y tîm staff yn gosod pwyslais ar ddysgu gymaint ag y gallant am fywydau gorffennol a phresennol pob claf. Ar sail eu hanawsterau cyfathrebu cymhleth, roedd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy gyfathrebu â theluoedd cleifion, cynrychiolwyr, a gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol eraill.

Roedd trafodaethau â staff a chraffu ar gofnodion cleifion yn cadarnhau nad oedd ataliaeth yn cael ei ddefnyddio wrth ymdrin ag ymddygiad cleifion y gallai rhai pobl ei weld yn heriol. Yn hytrach, defnyddiwyd technegau tynnu sylw neu rhoddwyd lle i gleifion nes i'r sefyllfa'n cael ei datrys.

Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol. (Safon 3.5 – Cadw Cofnodion)

Canfuom fod cadw cofnodion o safon uchel iawn ac yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Rhoddwyd clod i staff am hyn yn ystod yr arolygiad oherwydd bod hyn yn golygu bod gan bob aelod o'r tîm fynediad at ganllawiau cynhwysfawr ynghylch sut i ddiwallu anghenion cyfredol a dyfodol cleifion yn eu gofal.

Gwelsom fod y cypyrddau ffeilio (a oedd yn cynnwys nodiadau cleifion mewn un o'r ddau fyngalo) ar agor. Roedd rheolwr yr uned fodd bynnag yn gallu darparu tystiolaeth inni o'r archeb a wnaed i gael allweddi fel ffordd o sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Canfuom fod niferoedd annigonol o staff nyrsio cofrestredig yn gweithio o fewn y gwasanaeth ar adeg yr arolygiad hwn. Er y cydnabyddir bod gan y bwrdd iechyd brosesau ffurfiol, wedi eu hen sefydlu, ar gyfer rheoli lefelau diogel o staffio'n gyffredinol (a oedd â'r nod o ddarparu'r lefelau gorau o staffio ar bob adeg), gwnaethom hysbysu'r gwasanaeth am yr angen am arolygiad o ddarpariaeth y gwasanaeth a staffio er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd a gynigir, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Canfuwyd gennym fod y rheolwr a thîm staff y gwasanaeth yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn canolbwyntio ar y person o ran eu gwerthoedd a'u dull o ddarparu gofal a chymorth i gleifion. Canfuom hefyd fod y staff yn eglur iawn am eu rolau a'u cyfrifoldebau a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda o ddydd i ddydd.

Gwnaeth trafodaethau ag aelodau o'r tîm staff a'r rheolwr hefyd ddangos eu bod yn ymwybodol o'r problemau o ran y gwasanaeth yr oedd angen eu gwella ac roedd ganddynt ymroddiad eglur i fynd i'r afael â'r rhain. Roedd hyn er mwyn codi safon y gofal a'r cymorth ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod problemau ehangach megis lefelau staffio, cynnal yr amgylchedd gofal ac ymgysylltiad staff (ag uwch reolwyr y bwrdd iechyd) yn aml y tu hwnt i'w rheolaeth.

Datgelodd trafodaethau ag uwch-reolwyr fod newid arwyddocaol wedi bod o ran staff rheoli o fewn gwasanaethau Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Cawsom ar ddeall hefyd fod y bwrdd iechyd wedi dechrau'r broses o sefydlu Bwrdd Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Nod hyn oedd cynnig modelau gofal a threfniadau gwasanaeth newydd a dulliau ymyriad cynnar ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Byddai'r Bwrdd Comisiynu Ar y Cyd hefyd yn gyfrifol am nodi ailddyrianiad adnoddau GIG presennol gyda'r bwriad o ddarparu'r profiad a'r canlyniad o'r ansawdd gorau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd.

Rhoddyd copi o archwiliad amgylcheddol y bwrdd iechyd (cwblhawyd ym mis Rhagfyr 2015/Ionawr 2016) i ni ac ymweliad hapwirio gan uwch-reolwr ym mis Chwefror 2016. Canlyniad yr archwiliad blaenorol oedd 'diwallwyd y rhan fwyaf

o'r safonau ac mae'r pryderon yn eithaf bach. Fodd bynnag, mae rhai o'r problemau ar gyfer gwelliant a amlygwyd yn ystod yr arolygiad amgylcheddol heb eu datrys o hyd. Trafodir y mater hwn yn llawnach yn adran yr adroddiad hwn a enwyd 'Darpariaeth gofal diogel ac effeithiol.'

Canfuom fod angen cryfhau cydweithrediad a chyfnwid gwybodaeth rhwng uwch-reolwyr y bwrdd iechyd a thîm staff y gwasanaeth hwn. Roedd hwn yn ffordd o hyrwyddo arloesi, gwella darpariaeth gwasanaethau ac chynllunio'r adnoddau yr oedd eu hangen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad eglur i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ar waith i gyfarwyddo a chefnogi'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn unol â'r Safonau sy'n nodi bod y cyfryw drefniadau'n hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gynaliadwy.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1 – Y Gweithlu)

Ar adeg ein harolygiad, canfuom fod y gwasanaeth yn ceisio cynnal darpariaeth gwasanaeth i gleifion yng ngoleuni salwch annisgwyl staff a swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig. O ganlyniad, roedd yn ofynnol i'r tîm staff ymgymryd â dyletswyddau dros ben oriau a oedd â'r potensial i gael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles.

Datgelodd trafodaethau â'r uwch-reolwyr fod y bwrdd iechyd eisoes wedi gweithredu rhywfaint i lenwi'r swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yn ystod y misoedd nesaf. Roedd hyn i'w gyflawni drwy recriwtio staff sydd newydd gymhwyso ac annog dwy nyrs brofiadol (a oedd wedi ymddeol yn ddiweddar) i ddychwelyd i weithio yn y gwasanaeth ar sail 'rhannu swydd'. Yn y cyfamser, dywedwyd wrthym fod trafodaethau ar y gweill ynghylch defnyddio 'banc' nyrsys ehangach y bwrdd iechyd i sicrhau bod digon o staff ar gael i ofalu am gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglyn â sut bydd yn sicrhau bod digon o staff ar gael i weithio yn y gwasanaeth ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion cleifion bob amser.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom roi'r cyfle i staff gwblhau holiadur AGIC. Dychwelwyd saith o holiaduron. Dangosir crynodeb o ymatebion y staff isod:

'Rydym yn gweithio'n dda fel tîm'

'Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gall diffyg cyllid ac offer diffygiol fod yn rhwystr'

'Byddwn yn croesawu unrhyw hyfforddiant pellach sy'n berthnasol i'm swydd'

Roedd holiaduron staff AGIC yn dangos bod pwyslais ar hyfforddiant staff, ar ddarparu gofal o safon uchel i gleifion ac yn gyffredinol, bod diwylliant o fod yn agored o fewn y bwrdd iechyd a oedd yn galluogi staff i nodi a datrys unrhyw broblemau.

Gwnaeth myfyriwr nyrsio a siaradodd â ni hefyd ddweud bod y tîm staff wedi'i chefnogi mewn ffordd gadarnhaol iawn drwy gydol ei lleoliad a oedd wedi ei helpu i ddysgu llawer yn ystod yr amser yr oedd hi wedi ei dreulio yn y gwasanaeth.

Roedd trafodaethau â rheolwr yr uned yn amlygu cynnwys y rhaglen hyfforddi staff gorfodol. Fodd bynnag, cawsom ein hysbysu fod data cwblhau hyfforddiant/cyfymffurfio y bwrdd iechyd yn wahanol yn aml i'r hyn sydd gan y gwasanaeth. Yn fwy penodol, roedd staff yn gwneud mwy o hyfforddiant nag oedd yn cael ei gofnodi'n ganolog. O ganlyniad nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth eglur o hyfforddiant staff hyd yma. Yn ychwanegol, canfuom nad oedd rhai aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ynglŷn ag adfywio cardio-pwlmonaidd a defnyddio offer argyfwng.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol ar sail barhaus fel eu bod yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod tua 80 y cant o staff wedi derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod 20 y cant o'r gweithlu (gan gynnwys rheolwr yr uned) heb gael y cyfle i drafod effeithiolrwydd unrhyw hyfforddiant a gyflawnwyd ac i bennu ba sgiliau allweddol pellach yr oedd eu hangen i'w cynorthwyo yn eu gwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn sicrhau bod y staff yn derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwnaeth trafodaethau â staff, fodd bynnag, ddatgelu eu bod yn gallu trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt am ddarparu gwasanaethau i gleifion â'r rheolwr, ar sail anffurfiol, o ddydd i ddydd.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledau dysgu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn y gwasanaeth yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anableddau dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Gwasanaeth Preswyl arbenigol GIG Laurels and Briary

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mehefin 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
5	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGIC bod yr holl gleifion wedi derbyn eu gwiriad iechyd blynyddol gan feddyg teulu.	1.1	Mae gwiriadau iechyd gan feddygon teulu wedi cael eu cwblhau ar gyfer y cleifion sydd o fewn yr uned ar 19 a 28 Gorffennaf ac mae'r ddau olaf wedi cael eu trefnu ar gyfer 5 Awst 2016.	Rheolwr yr Uned a Rheolwyr Arweiniol yr Unedau Preswyl	Cwblhawyd
6	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a safonau Adeiladau Di-fwg (2007).	1.1	Mae'r gwasanaeth wrthi'n adolygu'r trefniadau ysmegu cyfredol ac yn gosod y cyfleusterau ysmegu ar gyfer cleifion y tu allan i'r uned mewn man dan orchudd a fydd yn sicrhau na fydd ysmegu yn effeithio ar y cleifion eraill.	Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl a'r Rheolwr Cyffredinol Dros Dro	31 Hyd 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
7	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob claf yn cael cyfarpar priodol mewn ffordd amserol i ddiwallu eu hanghenion cydnabyddedig.	6.1	Mae gwely'r claf unigol bellach wedi cael ei drwsio ac mae proses i uwchgyfeirio materion ystadol nad ydynt wedi'u cyflawni wedi cael ei sefydlu.	Rheolwr yr Uned a Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	Cwblhawyd
8	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau gweithredu cychwynnol a pharhaus i'w cymryd i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal yn yr amgylchedd mwyaf priodol ac yn unol â'u hanghenion, eu dymuniadau a'u hoffterau.	6.1	Cynhaliwyd cyfarfod â Chomisiynwyr Caerdydd a'r Fro ar 18 Gorffennaf 2016 i drafod y mater o reoli gofal ac adolygiadau'r Cyngor Iechyd Cymuned. Mae cynllun gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu yn yr uned gyda chynlluniau ar droed i drefnu a chwblhau adolygiad llawn y Cyngor Iechyd Cymuned o'r holl gleifion i gadarnhau eu hanghenion cyfredol o ran lleoliadau'r dyfodol.	Rheolwr yr Uned a Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl	30 Tach 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo gweithle iachus a diogel ac iechyd a lles cleifion a staff yn weithredol.	2.1	<p>Mae'r mannau cysylltiedig â'r ystafell wydr a'r ramp y tu allan yn cael eu hadolygu gan reolwr yr ystadau cyfalaf ar hyn o bryd er mwyn cael eu cynnwys yn y gwaith adeiladu cyfredol sydd wedi dechrau yn yr uned.</p> <p>Ar ôl ail-leoli'r ystafell ysmegu o'r ystafell wydr gall y mannau hyn gael eu defnyddio gan gleifion a staff fel mannau ar gyfer ymwelwyr ac egwylion.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro</p> <p>Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl a Rheolwr Cyffredinol Dros Dro</p>	<p>30 Awst 2016</p> <p>31 Hyd 2016</p>
11	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gan staff fynediad at offer dadebru priodol i'w defnyddio yn ystod argyfwng gyda chlaf (llewygu).	2.1	Cynhaliwyd cyfarfod â hyfforddwr dadebru'r bwrdd iechyd ar 21 Gorffennaf 2016 er mwyn cadarnhau beth mae ei angen ar gyfer pob uned o fewn y gwasanaeth. Mae'r manylion y cytunwyd arnynt o ran cyfarpar wedi'u hanfon at holl reolwyr yr unedau er mwyn eu rhoi ar waith.	Rheolwr yr Uned a Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl	30 Awst 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
12	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod diogelwch a storio meddyginiaeth yn cael ei gynnal yn unol â'r polisi lleol.	2.6	Mae rheolwr yr uned wedi hysbysu'r staff i gyd bod angen i'r ystafell driniaeth fod ar glo ar bob adeg er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol.	Rheolwr yr Uned	Cwblhawyd
12	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.	2.7	Bydd y gwasanaeth yn parhau i gydgyssylltu â'r Awdurdod Statudol yn brydlon mewn perthynas â chwblhau cais o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.	Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl a Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros	30 Awst 2016
Answydd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
15	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad clir i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ar waith i arwain a chefnogi'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn unol â'r Safonau sy'n dweud bod y trefniadau hyn yn	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Cwblhau her 15 cam mewn archwiliadau ym mhob uned. Adolygu'r archwiliadau a chwblhau cynllun gweithredu yn seiliedig ar y	Nyrs Arweiniol Dros Dro a Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl Nyrs Arweiniol Dros Dro a	30 Awst 2016 30 Medi 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	hanfodol i ddarparu gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gynaliadwy.		<p>canfyddiadau.</p> <p>Dosbarthu'r gylchred archwilio weledol i'r holl reolwyr uned.</p> <p>Datblygu system gyda'r tîm llywodraethu i goladu, monitro ac adrodd am bob archwiliad a gwblheir gan y rheolwyr uned.</p>	<p>Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl</p> <p>Nyrs Arweiniol Dros Dro</p> <p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro ac Arweinydd Llywodraethu'r Uned Gyflenwi</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>1 Rhag 2016</p>
16	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â sut bydd yn sicrhau bod digon o staff ar gael i weithio yn y gwasanaeth ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion cleifion bob amser.	7.1	Mae trafodaethau'n parhau â rheolwr banc y bwrdd iechyd ac asiantaethau nyrso er mwyn archebu staff dros dro am gyfnod penodol wrth i ni aros i'r staff a gyflogir yn barhaol ddechrau gweithio yn yr uned.	Rheolwr yr Uned a Rheolwr Arweiniol yr Unedau Preswyl	30 Medi 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Mae un nyrs staff yn aros i gael ei throsglwyddo o uned arall yn y gwasanaeth.</p> <p>Mae rhai o nyrsys cymunedol ein gwasanaeth wedi dechrau gweithio yn yr uned drwy'r banc hefyd.</p>		
16	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol yn barhaus er mwyn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol.	7.1	<p>Mae'r adran Anableddau Dysgu wedi datblygu system casglu data wythnosol ar gyfer holl gofnodion hyfforddiant statudol yr unedau i gyd. Caiff y data ei uwchlwytho i systemau'r bwrdd iechyd a'i rannu â rheolwyr uned unigol ar gyfer eu hunedau.</p> <p>Caiff hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol ei drefnu ar gyfer holl staff yr uned a fydd yn cydymffurfio â'r hyn y cytunwyd arno yn dilyn cyfarfod diweddar â hyfforddwr dadebru'r bwrdd iechyd.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro</p> <p>Rheolwr yr Uned</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30 Medi 2016</p>
17	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i	7.1	Dyddiad wedi'i drefnu erbyn pryd dylai rheolwr yr uned fod wedi cwblhau ei arfarniad ac adolygiad	Rheolwr Arweiniol yr Unedau	20 Awst 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	sicrhau bod y staff yn derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau allweddol angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.		datblygu personol (25 Awst 2016) Wrthi'n gwneud trefniadau i'r 20% o'r staff sy'n weddill gwblhau eu harfarniadau ac adolygiadau datblygu personol.	Preswyl Rheolwr yr Uned	31 Hyd 2016

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Dermot Nolan

Teitl: Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro

Dyddiad: 1/8/16